**Mae Casgliad y Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru, (1947-61/63) a grëwyd gan Age Cymru Dyfed, wedi'i wneud yn bosib diolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.**

Dyddiad y cyfweliad: Hydref 2025

Lleoliad: Pencarreg, Ceredigion

Cyfwelydd: Neil Davies

Camera: Hugh Morgan

**Elsie Spiller,**

**Gwasanaeth Menywod y Llynges Frenhinol,**

**Pencarreg, Ceredigion.**



*"Roedd e yr peth orau i mi erioed di' wneud."*

**Methodoleg**: Casglwyd stori Elsie am ei amser fel aelod o’r Gwasanaeth Menywod y Llynges Frenhinol trwy cyfweliad yn cartref hi yn Ngheredigion. Roedd Elsie yn 88 oed ar adeg yr cyfweliad. Cafodd yr cyfweliad eu recordio trwy ffurf sain.

Mae’r rhan fwyaf o’r cynnwys yn yr dogfen yma yn dibynnu’n fawr ar atgofion Elsie. Mae'r awdur wedi groeswirio atgofion Elsie gyda ffynonellau gwybodaeth ychwanegol er mwyn cael darlun gwell o profiad Elsie yn yr Gwasanaeth Menywod y Llynges Frenhinol.

Mae'r awdur wedi crynhoi rhywfaint o'r sgwrs o'r cyfweliad, lle mae Elsie yn cael ei ddyfynnu yn y naratif hwn.

## **Cefndir**

Ganwyd Elsie ym 1937 a thyfodd i fyny gyda'i thair chwaer yn nhref Addlestone yn Surrey. Aeth hi i’r ysgol gynradd leol a hefyd i’r ‘ysgol Sul’ gyda'r eglwys. Roedd yr Ail Ryfel Byd yn rhan bwysig o'i phlentyndod cynnar a mae ganddi atgofion gryf o’r gwrthdaro a’r bomio'r Luftwaffe. Mae Elsie yn cofio am ffatri awyrennau ‘Vickers’ wedi'i lleoli tua thair milltir i'r de-ddwyrain o Addlestone yn Brooklands, a sut cafodd eu thargedu'n drwm gan fomwyr yr Almaen.

*“Roedd ffatri ‘Vickers’ yn adeiladu awyrennau ac roedd o jesd i fyny'r ffordd o Addlestone. Roedd y Almaenig yn ceisio e fomio bob nos. Roedd rhaid i ni fynd i lawr y llochesi cyrch awyr a oedd nhw’n ofnadwy, fel jyngl concrit! Roedd gennych chi fwced i fynd i'r toiled o flaen pawb, dyna oedd y peth mwyaf embaras.”*

Roedd sŵn y cyrchoedd awyr yn ofnus iawn i blentyn bach.

*“Roedd sŵn yr awyrennau’n ofnadwy*.”

Roedd tad Elsie yn diffoddydd tân ac wnaeth o weld yn llawn yr adweiriau o’r ffrwydradau.

*“Roedd fy Nhad yn diffoddydd tân, ac roedd rhaid iddo fynd i Lundain i helpu gyda’r bomio. Yn tynnu cyrffiau allan o adeiladau a phethau ofnadwy. Nid oedd hwnnw’n amser braf iawn.”*

Roedd y teulu a oedd yn byw drws nesaf iddi yn rhoi llety i awyrenwyr y Llu Awyr Brenhinol.

*“Doedd gennym ni ddim lletywyr oherwydd bod gan Mam bedwar o blant, ond roedd gan y ddynes drws nesaf yr RAF yno. Roedd yn orfodol bryd hynny. Roedden nhw’n fechgyn gwych. Roeddech chi’n meddwl wrthoch chi’ch hun, os ydyn nhw’n mynd i ryfel, ydyn nhw’n dod yn ôl? Mae’n beth ofnadwy, y rhyfel.”*

Roedd diwedd y rhyfel ym 1945 yn ddigwyddiad i’w ddathlu. Roedd Elsie yn 8 oed ar yr pryd.

“*Fe wnaethon ni ddathlu. Fe wnaethon ni gael yr holl jariau jam y gallen ni eu cael a rhoi streipiau coch, gwyn a glas arnyn nhw. Wedyn, wnaethon ni roi cannwyll ynddyn nhw, ac fe wnaethon ni orymdeithio drwy’r strydoedd yn canu.”*



Yn y llun hwn a dynnwyd yn ystod y rhyfel, mae Elsie yn sefyll yn y cefn gyda'i thair chwaer o'i blaen.

Ar ôl gadael yr ysgol, dechreuodd Elsie weithio yn y 'Labordy Ymchwil' yn gerllaw Weybridge. Deitl swyddogol y labordy ymchwil ydy'r 'Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion', a wnaeth y sefydliad dathlu ei ganmlwyddiant yn 2017. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r labordy wedi bod yn phrofi samplau adar am ffliw adar.

"*Roeddwn i'n gweithio yn y labordai ymchwil yn Weybridge. Dyma'r unig swydd y gallech chi ei gwneud. Roedden ni'n beicio (i gwaith) oherwydd na allem fforddio car. Roedd yn fywyd da."*

Roedd Elsie wedi cwrdd â dyn cymwys, a briododd. Wrth fwynhau bywyd, daeth Elsie yn ymwybodol o'r cyfleoedd i fenywod yn y Llynges Frenhinol. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn ddewis gyrfa a oedd o flaen ei meddwl at yr pryd. Mae Elsie yn siarad yn onest am yr hyn oedd yn digwydd yn ei bywyd, a sut daeth ei phenderfyniad i ymuno â'r Llynges i fodolaeth trwy ddigwyddiad eithaf trist.

"*Gadawodd fy ngŵr cyntaf fi. Collais fabi newydd, ac roeddwn i'n meddwl bod rhaid i mi ddianc. Agorais y papur newydd a dywedodd (y hysbyseb) 'Ymunwch â'r Wren's'*. Felly llenwais ef, anfonais ef i ffwrdd ac ymhen pythefnos roeddwn i yn y Wren's!*"*

*Gwasanaeth Menywod y Llynges Frenhinol. (Cyn 1993 roedd cangen fenywaidd y Llynges Frenhinol ar wahân).

Ar ôl ymateb i'r hysbyseb, cafodd Elsie ei galw mewn yn fuan am gyfweliad.

*"Dywedon nhw fod rhaid i mi fynd i Lundain. Fedra i ddim cofio ble roedd o nawr. Roedd yna llong oeddech chi'n mynd arno i gael eich prawf meddygol a'ch prawf llygaid, pethau fel 'na. Dywedodd hi, 'Byddwn ni'n anfon llythyr atoch chi' ac roeddwn i'n meddwl na fyddwn i'n clywed dim. Ond pythefnos yn ddiweddarach roeddwn i wedi ymuno'r Wren's."*

Yn amlwg, roedd hwn yn newid cyfeiriad sylweddol ym mywyd Elsie ac roedd ei theulu wedi synnu.

*"Doedd fy nhad ddim yn falch iawn, ond dywedodd fy Mam, 'Gwnewch chi beth rydych chi eisiau ei wneud'. Roedd rhaid i mi fynd i ffwrdd, a dyna oedd y peth gorau i mi erioed ei wneud. Wnes i cwrdd â rhai ffrindiau hyfryd."*







Rhai posteri recriwtio cynnar ar gyfer y WRN.

Trwy garedigrwydd tudalen Facebook Amgueddfa Wrens.

**Gwasanaeth Menywod y Llynges Frenhinol (WRN)**

Ymunodd Elsie y'r Gwasanaeth Menywod y Llynges Frenhinol a theithiodd i HMS Dauntless, Burghfield, ger Reading yn Berkshire i ymgymryd â hyfforddiant sylfaenol.

Yn 1962 roedd yr enw HMS Dauntless yn ei 5ed cyfnod o wasanaeth, ac roedd bellach yn sefydliad ar y lan. Roedd y WRN wedi symud i Dauntless ym 1953.




Llun cyfnod o brif giât mynediad HMS Dauntless. Cerddodd Elsie drwy'r union giât hon ym 1962.

Delwedd trwy garedigrwydd wrens.org.uk

Cafodd Gwasanaeth Llynges Frenhinol y Menywod ei ffurfio yn 1917, roedd e wedi dadfynyddio yn 1919 cyn diwygio yn 1939. Ymgymerodd 'Wrens' â dyletswyddau domestig fel glanhau a choginio. Fodd bynnag, wrth i amser fynd heibio, wnaeth yr gwasanaeth cael ei moderneiddio. Agorodd crefftau a dechreuodd y Wrens hyfforddi ar gyfer rolau fel telegraffwyr diwifr, trydanwyr, meteorolegwyr a stiward. Roedd y rhan fwyaf o Wrens wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig.

Mae Elsie ddim yn rhy siŵr am hyd oedd y cwrs hyfforddi'r Wren’s yn Dauntless. Mae cofnodion yn dangos ei fod tua 6 wythnos o hyd.

"*Roedd tua 3 mis, dwi'n meddwl."*

Roedd hyfforddiant y menywod yn y rhan fwyaf o rannau yr un fath â hyfforddiant wnaeth y dynion:

"*Roedd rhaid i ni fynd i'r gampfa, profi y gallem ddefnyddio masgiau nwy a gorymdeithio'n iawn. Roedd rhaid i ni ddysgu holl reolau'r Llynges."*

Fel rhan o hyfforddiant y Wren’s, rhoedd rhaid I nhw wneud gwaith academaidd hefyd. Dysgon nhw am hanes a swyddogaeth y Llynges Frenhinol, y gwahanol rolau, llongau a strwythur y rhengoedd. Ar ddiwedd y cwrs, roedd yna arholiad ac i ryw raddau, oedd dy canlyniadau yn penderfynu dy swydd.

*“Nes I pasio fy arholiadau, ac y ddiwrnod nesaf es i clywed fy mod i’n mynd i Collingwood.”*



Elsie gyda ffrindiau a gwblhaodd eu hyfforddiant Wren gyda'i gilydd yn HMS Dauntless. Mae Elsie wedi cadw'r llun hwn i'w hatgoffa o ddyddiau hapus.

**<u>HMS Collingwood</u>**

*“Y pedair blynedd hapusaf yn fy mywyd!”*

Adeiladwyd HMS Collingwood, a leolir yn Fareham, Hampshire, fel sefydliad hyfforddi ar gyfer cangen y morwyr ar 197 erw o dir ffermio. Prynwyd yr ardal yn orfodol ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd ym 1939. Yn ystod y rhyfel a thu hwnt, tyfodd yn maint a thrawsnewidiodd fel sefydliad hyforddi a cynnal a chadw ar gyfer amrywiaeth o rolau ac offer. Roedd yr Wrens yn bresennol o'r dechre, yn cyflawni rolau fel cogyddion, stiwardiaid, negeswyr a gweithredwr switsfwrdd.

Roedd llety’r Wrens ar ochr ddwyreiniol pen deheuol Ffordd ‘Excellent’. Ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd, lleihawyd maint y cyfadeilad meddygol a oedd wedi’i leoli hanner ffordd ar hyd Ffordd ‘Excellent’. Symudodd y Wren’s i’r adeiladau diangen a oedd yn amgaeedig tu ôl i ffens ddiogelwch. Mae hyn yn rhywbeth mae Elsie yn ei gofio’n dda.

Daeth Collingwood yn ganolfan i’r Gangen Electronig ac ym 1962 cafodd y strwythur hyfforddi eu adffurfiedig. Mae Elsie yn cofio pacio fag cit y Llynges a chymryd trên i Fareham. Cyrhaeddodd ganolfan filwrol enfawr.

*“Es i i HMS Collingwood, a oedd yn ysgol enfawr. Roedd gennych chi bobl o bob cornel o’r byd yn mynd yno i ddysgu sut i wneud radar a phethau fel ‘na.”*

Cafodd ei chyfeirio at lety'r Wren a chafodd ystafell ei dyrannu iddi. Roedd hwn yn gyfnod cyffrous ond nerfus I Elsie:

*"Roeddwn i'n teimlo braidd yn rhyfedd ar y dechrau. Dy' chi'n cwrdd â'r holl Wrens, ac maen nhw'n dechrau sgwrsio da chi."*

Fodd bynnag, cafodd groeso cynnes ac yn fuan fe wnaeth hi ymgartrefu:

*"Jesd ffordd arall o fyw oedd hi."*

Cyn ymuno, roedd Elsie wedi dysgu gweithio fel gweinyddes. Yn fuan, roedd hi'n defnyddio y sgil hon. O fewn cyfnod byr, dechreuodd hi ddyletswyddau yn mess y Swyddogion, a oedd yn elwid yn y Llynges y 'Ystafell Ward'.

*"Dysgais sut i wneud 'Gwasanaeth Arian' er mwyn i mi allu gweini ar y byrddau."*

Yn wir, daeth Elsie yn 'Stiwardes Arweiniol y Wren'.

"*Roeddwn i'n Wren Arweiniol. Roeddwn i'n gweini ar y byrddau ac yn deffro'r Swyddogion yn y bore gyda phaned o de."*

Gweithiodd y Stiwardesau'n galed, ac addasodd Elsie i'r drefn ddyddiol.

"*Roeddech chi'n gweithio oriau hir, gan ddechrau am 7 y bore. Roeddech chi'n deffro'r Swyddogion gyda phaned o de neu goffi. Yna, roeddech chi'n mynd yn ôl a chael eich brecwast. Wedyn, roeddech chi'n mynd yn ôl a paratoi brecwast i'r Swyddogion. Nesaf, roedd rhaid i chi lanhau eu hystafelloedd. Roedd yn fywyd prysur, doeddech chi ddim yn cael llawer o arian am dy waith! Ond roedd yn rhan o fywyd."*

Gan fod yn sefydliad glan môr y Llynges Frenhinol, gyda llawer o Swyddogion yn ymweld, roedd yna llawer o draddodiadau i'w dilyn…

"*Roedd nhw'n ddiwrnodau hir. Roedd yna llawer o giniawau ffurfiol y 'Mess'."*

Roedd y digwyddiadau a ciniawau ffurfiol hon wedi'u hen sefydlu yn hanes a thraddodiad y Llynges. Roedd y digwyddiadau hyn yn heriol i'r stiwardesau, ac roedd rhaid iddynt gwisgo'n berffaith. Yn ogystal, roedd rhaid i'r stiwardesau ddangos lefel uchel o wybodaeth am swyddogaeth a fformat y digwyddiadau hyn. Roedd disgwyl i'r stiwardesau berfformio i safon uchel. Roedd pwysau ychwanegol trafodion y noson yn adlewyrchu ar Wardroom HMS Collingwood. Roed yna dim le am camgymeriadau na diogrwydd!

*"Byddech chi'n gweithio tan 1 y bore ac yna'n gorfod codi am 7 y bore i gael paned o de neu goffi i'r Swyddogion."*

Nid oes dadl bod menywod yn y llynges yn ystod y 1960au yn llawer mwy niferus na dynion.

Does dim gwadu'r ffaith yn ystod y 1960au, roedd menywod yn y llynges yn cael ei gor-rif gan y ddynion a roedd agweddau cymdeithasol yn wahanol iawn. Y dyddiau yma, mae'r fyddin wedi symud ynghyd ag agweddau newidiol yn y gymdeithas ac mae menywod ar sail fwy cyfartal. Fodd bynnag, bryd hynny, roedd Elsie a'i chyd 'Wrens' yn aml yn profi agweddau gwael gan yr 'Ratings*' a'r Swyddogion. Efallai y ffaith bod llety'r 'Wrens' wedi'i ddiogelu y tu mewn i ffens dolen gadwyn yn dangos y mater yn ddigon da. Mae Elsie yn rhannu rhai meddyliau gonest am fywyd ymhlith y ddynion yn HMS Collingwood yn gynnar yn y 1960au:

*Mae ‘Ratings’ yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio’r gweithlu llyngesol ehangach heb gomisiwn.

*“Roedd rhai’n iawn, rhai ddim. Roedd rhai’n meddwl eich bod chi’n ‘gêm hawdd’, ddylwn i ddweud. Cyn belled â’ch bod chi’n gwybod beth oedd beth. Wnaethoch chi ddim gadael i’r ‘Ratings’ geisio gwneud unrhyw beth i chi. Roeddech chi’n cwrdd â rhai dynion hyfryd ac mewn sefydliad fel ‘na roedd Swyddogion Awstraliaidd, swyddogion Americanaidd, pob math. Roeddech chi bob amser yn rhoi dawns arno iddyn nhw yn y ‘mess. Felly, cawson ni lawer o amseroedd da.”*

Mae Elsie yn myfyrio ar y cysylltiadau agos a ddatblygodd rhwng y Wrens, lle byddent yn 'gofalu am' ei gilydd:

“*Gwnaethoch chi ffrindiau gwych. Peggy, hi oedd fy ffrind gorau. Fi oedd y Forwyn Briodas yn ei phriodas. Roeddech chi'n arfer gadael eich arian o gwmpas, doedd neb yn cyffwrdd â'ch arian. Roedd yn awyrgylch hyfryd, hamddenol.”*

Cafodd y merched hwyl gyda'i gilydd:

“*Mae gen i atgofion hapus. Un wythnos byddech chi'n cael eich talu a'r wythnos nesaf oedd y 'wythnos ddu'; Byddem ni'n ei alw e hynny oherwydd nad oedd gennych chi arian wedyn. Bob wythnos gyflog bydd band mawr yn dod i Collingwood, ac bydd gennym ni ddawns fawr. Roedd yn amseroedd braf. Aeth lawer o enwau enwog ddod I perfformio I ni, ond alla i ddim meddwl am un ohonyn nhw nawr.”*

Yna cyfarfodd Elsie â rhywun a fyddai’n newid ei bywyd…

“*Roedden ni’n arfer mynd i lawr i’r ‘NAAFI’ bob nos am ddiod. Roedd e’n eistedd ar ben ei hun ac es i siarad ag e ac fe wnaethon ni glicio, fel ‘na. Roedd e newydd ddod yn ôl ac yn aros am long. Roedd e wedi bod ym mhobman.”*

Y ‘rhywun’ mae Elsie yn siarad am oedd Alfred Spiller, a fyddai’n cael ei adnabod yn annwyl yn ddiweddarach fel ‘Alf’. Roedd e’n swyddog ‘Leading Rating’ yn y llynges, yn uwch swyddog sy'n cyfateb i gorporal yn y fyddin, ac roedd yn aros am gael ei ddrafftio i long arall ar yr pryd. Mae Elsie yn credu eu bod nhw wedi cwrdd yn gyntaf ym 1964. Cafodd ‘Alf’ ei ddrafftio i HMS Vernon, canolfan ar y lan gerllaw yn Portsmouth. Daeth drafft nesaf Alf ym mis Mawrth 1965. Ymunodd â’r ffrigad HMS Penelope. Yn fuan dechreuodd y llong ar fordaith hir, gan fynd gyda’r criwser HMS Tiger i Dde America. Dros y flwyddyn nesaf neu fwy, byddai Elsie ac Alf yn cyfnewid llawer o lythyrau. Ysgrifennu oedd y prif ddull cyfathrebu rhwng teuluoedd a phartneriaid a oedd yn gwasanaethu dramor yn y 1960au.



Y prif forwr Alf Spiller. Mae Elsie wedi trysori'r ffotograff hwn o ddyddiau Alf ar y môr.

Rywbryd, cafodd Elsie ei hanfon i sefydliad arall ar y lan ddim rhy bell o Collingwood.

*"Es i i ble roedden nhw'n hyfforddi pobl i deipio yn ystod y rhyfel. Roedd o jesd i fyny'r ffordd o Collingwood, ond doeddwn i ddim yn ei hoffi. Rydych chi'n gadael eich holl ffrindiau ar ôl ac mae'n ofnadwy. Ond yna nes I cyfarfod ag Alf, felly roeddwn i'n lwcus."*

Mae record drafft Alf yn dangos aeth o lanio HMS Penelope yn gynnar yn 1966, a oedd newydd ddychwelyd o'r lleoliad yn Ne America. Roedd y llong angen hailwampio'n fawr felly aeth i mewn i'r doc sych. Cafodd Alf ei aseinio i'r sefydliad ar y lan HMS Pembroke yn Chatham.

Ym mis Gorffennaf 1966, roedd gwasanaeth Alf yn dod i ben, a chafodd ei alw i HMS Victory a'r iard longau llyngesol hanesyddol, Portsmouth.

O ystyried beth mae Elsie yn ei gofio, mae'n debygol iawn wnaeth hi dreulio amser gydag Alf yn yr iard longau llyngesol hanesyddol.

"*Dwi'n cofio roedd yn le braf. Roedd ganddyn nhw gerflun o fenyw neu rywbeth o flaen y llongau. O gwmpas yr ardd roedd ganddyn nhw'r cerfluniau hyfryd yma."*

Penderfynodd y cwpl eu bod nhw eisiau treulio'r dyfodol gyda'i gilydd a fe wnaethon nhw ddyweddïo i briodi. Gyda Alf bron â chael ei ryddhau o'r llynges, penderfynon nhw y bydden y ddau o nhw gadael y gwasanaeth ac dechrau bywyd newydd gyda'i gilydd yn 'stryd sifil'. Alf oedd y cyntaf i adael. Mae ei dystysgrif gwasanaeth yn ddangos ar y diwrnod cyn ei ben-blwydd yn 27 oed- y 12 Awst 1966- wnaeth o gael ei ryddhau'n ffurfiol o'r Llynges Frenhinol ar ôl cwblhau ei wasanaeth.

Cafodd Elsie ei rhyddhau ychydig yn ddiweddarach ym 1966. Unwaith y byddai eu ysgariadau o'u priodasau blaenorol wedi'u cwblhau, priodon nhw yn swyddfa gofrestru yn Guildford.

"*Priodon ni yn ystod ein hawr ginio yn swyddfa Gofrestru Guildford. Cawson ni 2 berson oddi ar y stryd i fod yn dystion i ni! Wel, roeddwn i'n meddwl ei fod o wedi bod yn briod o'r blaen a minnau wedi bod yn briod o'r blaen. Doeddwn i ddim eisiau unrhyw ffws. Roeddwn i'n hapus iawn."*

Byddai'r briodas yn un hir a hapus. Symudodd y cwpl i Swydd Lincoln lle aeth nhw rhedeg tafarn wledig, The Royal Oak Inn yn Swinderby. Yn eironig, roedd y dafarn wedi'i lleoli ger ysgol hyfforddi recriwtiaid yr RAF yn RAF Swinderby. Yn ystod eu hamser yn y Royal Oak, croesawon nhw lawer o filwyr y llu awyr brenhinol drwy'r drysau.




Mwynhaodd Elsie ac Alfred lawer o flynyddoedd hapus yn rheoli Tafarn y Royal Oak, Swinderby. Mae gan Elsie'r print hyfryd hwn o'r dafarn yn ei chartref yng Nghymru.

Yn y pen draw, ymddeolodd y cwpl i Geredigion yn Nghymru a threuliodd eu blynyddoedd olaf gyda'i gilydd yn rhedeg fferm fach.

*"Roedd gennym ni ddefaid, wartheg, geifr, moch. O, roedd yn fywyd caled ond hyfryd. Yn enwedig pan gewch chi wyn bach yn dod allan ac rydych chi'n eu bwydo â photel. Maen nhw'n rhedeg i fyny i'ch cyfarfod chi, mor hapus."*

Byddai Elsie ac Alf yn aml yn eistedd ac yn hel atgofion am eu bywydau blaenorol yn ôl yn y Llynges Frenhinol. Mae Elsie yn goroesi Alfred ac yn byw gyda'i hatgofion o fywyd hapus iawn gyda'i gilydd.

Mae'r hanes naratif hwn, ynghyd â recordiad sain o'r cyfweliad a ffotograffau, wedi'i leoli yng nghasgliad Elsie Spiller yn Archif Cyn-filwyr Gorllewin Cymru, gwefan Casgliad y Werin Cymru.

Mae pob hawl, gan gynnwys hawliau cyhoeddi i'r erthygl hon, yn perthyn i Elsie Spiller, neu ei fuddiolwr uniongyrchol pe bai hi'n marw.

Mae hawliau cyhoeddi i ddeunydd gafodd eu defnyddio i gwblhau'r ddogfen hon yn aros gyda'r cyhoeddwr gwreiddiol. Rydym yn diolchgar iawn i'r ffynonellau gwybodaeth canlynol a helpodd adeilaudau stori hon:

- en.wikipedia.org
- Women's Royal Navy Association
- Hmscoa.org (HMS Collingwood history)
- Wren's museum.

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

www.casgliadywerin.cymru
www.peoplescollection.wales

age Cymru Dyfed